



Urdd

# Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd 2019



## Llais

Mae 'da ni'r hawl i beidio cael niwed, a'r hawl i ofal a diogelwch  
Mae 'da ni'r hawl i roi ein barn ac i rywun wrando arnom ni  
Os oes rhyfel, mae 'da ni'r hawl i fod yn ddiogel a pheidio  
cael ein gorfodi i fod yn filwyr

Mae gyda ni'r pwer i godi'n llais, a'r hawl i gael ein clywed  
Oes rhywun yn gwrando? Oes rhywun yn gweithredu?

Ein HARF ni yw ein llais. Arf i weiddi'n uchel a cael ein clywed  
Arf i brotestio. Arf i bleidleisio. Arf i gysuro eraill  
Arf i fynegi ein hunain drwy gelfyddyd. Arf i'n helpu ni ddelio gyda thrais  
Arf i gefnogi pobl sy'n dioddef

Arf i estyn neges o obaith, neges o heddwch ac ewyllys da i blant a phobl ifanc y byd  
I blant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd rhyfel fel yn yr Yemen.

Rydyn ni'n gwrando

I blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ofn o ymosodiadau gyda chyllyll fel yn Llundain.  
Rydyn ni'n uno gyda chi

I blant a phobl ifanc sy'n sefyll dros eu hawl i addysg heb yr ofn o gael eu saethu  
fel yn yr Unol Daleithiau.

Rydyn ni'n clywed

I blant a phobl ifanc sy'n cael eu gorfodi i ymladd mewn rhyfeloedd yn lle cael addysg  
Rydyn ni'n codi ein llais, ein harf ni

Mae trais yn annog trais, fel mae cariad yn annog cariad, a chwerthin yn annog chwerthin

Ni yw'r dyfodol. Y genhedlaeth ifanc fwyaf mewn hanes. Dy'n ni HEB anghofio

Mae plant a phobl ifanc Cymru yn sefyll gyda'n gilydd a gyda phlant  
a phobl ifanc y byd. Yn galw ar y byd i wrando ac i weithredu yn erbyn trais a rhyfel

Ac i ddweud. DIGON

Ein harf ni yw ein LLAIS, dewch gyda ni, blant a phobl ifanc y byd a sefwch gyda ni

#heddwch2019 #peace2019



Urdd Gobaith Cymru



@Urdd



urddgobaithcymru

urdd.cymru / heddwch@urdd.org